DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981

GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)

TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD GWARTHEG O DDALIAD YN ARDAL TB ISEL CYMRU I SIOE HEB EI HEITHRIO CYN CYNNAL PRAWF TWBERCWLOSIS AR ÔL SYMUD

Yn unol ag erthyglau 13A a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg o ddaliad yn ardal TB Isel Cymru (fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010) i sioe amaethyddol heb ei heithrio cyn cynnal prawf croen ar ôl symud, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 00.01 o'r gloch ar 04 Chwefror 2019.

Llofnodwyd gan .....
O dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 04 Chwefror 2019

Amodau:

1) Mae gofyn cynnal prawf ar ôl symud fel arfer ar wartheg sy'n dychwelyd i'r daliad o sioe amaethyddol heb ei heithrio a gynhelir yn Ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru, neu yn yr ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel yn Lloegr, neu o Ogledd Iwerddon.
2) Mae'r drwydded hon yn caniatáu symud gwartheg o'r daliad naill ai i sioe amaethyddol heb ei heithrio neu sioe sydd wedi'i heithrio ac yna yn ôl yn uniongyrchol i'r daliad neu eu symud yn uniongyrchol i'w lladd.
3) Rhaid i'r anifail gael ei symud o Uned Gwarantîn ardystiedig a rhaid i'r anifail fynd yn ôl i Uned Gwarantîn ardystiedig.
4) Ar ôl dychwelyd i'r daliad, rhaid i'r gwartheg gael eu cadw mewn Uned Gwarantîn ardystiedig tan i brawf ar ôl symud gael ei gynnal 60-120 diwrnod ar ôl y symudiad cyntaf yn ôl o sioe amaethyddol heb ei heithrio a than i brawf ar ôl symud arall gael ei gynnal 60-120 ar ôl y symudiad olaf yn ôl o sioe amaethyddol heb ei heithrio yn Ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru, neu yn yr ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel yn Lloegr, neu o Ogledd Iwerddon.
5) Rhaid symud gwartheg allan o'r Uned Gwarantîn yn syth ar ôl iddynt

fodloni'r gofynion o ran cynnal prawf ar ôl symud.

6) Rhaid i'r ceidwad roi gwybod i'r Asiantaeth lechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl symud gwartheg am y tro cyntaf i Uned Gwarantîn ardystiedig at y diben hwn, a dyddiad eu symudiad olaf i'r Uned Gwarantîn honno, a rhaid bod y dyddiadau hyn yn yr un flwyddyn galendr.
7) Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid eraill yn yr Uned Gwarantîn ardystiedig heblaw gwartheg eraill y mae'r drwydded hon yn ymdrin â nhw.
8) Ni chaniateir symud gwartheg i'r eiddo nac oddi yno os bydd symudiad o'r fath yn groes i gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symudiad arfaethedig.
9) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf lechyd Anifeiliaid 1981.
10) Gall arolygydd ddirymu'r drwydded hon, yn ysgrifenedig, am gyfnod penodol, ar gyfer unrhyw ddaliad penodol, ar unrhyw adeg.

Nodiadau:

i) Trwydded yw hon ar gyfer gwartheg dangos sy'n mynd i fwy nag un sioe amaethyddol heb ei heithrio yn ystod tymor y sioeau.

ii) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflos a beison.

iii) Diffinnir sioe amaethyddol sydd wedi'i heithrio fel sioe lle na chaiff unrhyw wartheg aros ar faes y sioe am gyfnod o fwy na 24 awr neu gael eu cadw ar faes y sioe (hynny yw, cael eu cadw mewn unrhyw safle dan do heb ochrau iddo, gan gynnwys pebyll o unrhyw fath neu faint).

iv) Uned Gwarantîn ardystiedig yw Uned Gwarantîn sydd wedi'i hardystio gan Gorff Ardystio Cynllun Unedau Cwarantîn Llywodraeth Cymru. Mae'r manylion i'w gweld yma:

http://www.qwfc.co.uk/index.php/en/quarantine-unit-scheme.

v) Pan fydd gwartheg yn cael eu symud i ardal TB Isel o fuches yn ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru neu o ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel Lloegr neu o Ogledd Iwerddon, rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy'n cynnal prawf croen ar ôl symud arno, dim llai na 60 diwrnod a dim mwy na 120 diwrnod ar ôl i'r anifail gyrraedd yr eiddo sy'n ei dderbyn. Bydd hefyd yn talu am y prawf hwnnw. Nid yw hyn yn cynnwys rhai symudiadau penodedig, gan

gynnwys symudiadau a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

vi) Mae'r "Ardal TB Isel" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel yr ardal TB Isel ar y map adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru

vii) Manylion cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:

Cyfeiriad: Gwasanaethau Maes Cymru, Tŷ Merlin, Heol Glasdwr, Parc Pensarn, Caerfyrddin SA31 2NF
Ffôn: 0300 303 8268.